



CHWILEN GORNIOG LWYD-EURAIÐ

Agapanthia villosoviridescens

9 Mehefin 2019, Burton Mere, Cilgwri

Bethan Vaughan Davies

Yr abad, y maelgi a'r angel

Mi greodd y sylw yma gan Ann Parry Owen gryn diddordeb ymhlith yr arbenigwyr:



Tybed, plis, a oes rhywun yn gwybod a ydi hwn yn bysgodyn go iawn? Disgrifiad (o ddechrau'r 17g.) o "Abad", mewn rhestr o eiriau'n ymwneud â physgota a physgod - a'r pysgod ar y cyfan yn ymddangos yn rhai digon dilys. Math o bysgodyn sy'n byw yn y môr ac 'ynddo' 3 rhywogaeth – y pen blaen yn asgellog fel morgath, yn blasu fel morgath ac sydd rhaid ei baratoi fel morgath i'w fwyta. Y rhan ganol yn debyg i ganol mulwel [= penfras], yn blasu fel mulwel ac sydd rhaid ei baratoi fel mulwel i'w fwyta. A'r rhan ôl yn debyg i gi glas [= *dogfish*], yn blasu fel ci glas ac angen cael ei baratoi fel ci glas ar gyfer ei fwyta. Mae'n magu rhai ifainc yn ei groth fel moelrhon neu lamhidydd." Mae'r rhestr mewn llawysgrif - ac rwy'n gweithio arni ar hyn o bryd. Byddaf yn hapus iawn i'w rhannu ar ôl i mi orffen. Un arall difyr ydi "Ci coeg ... yr enw cyffredin ar yr holl gŵn bysgod sydd yn magu yn y môr, ac y maent yn bwrw oddi wrthynt ac ohonynt beth a elwir esgid y frân, o'r hon y mae yr holl gŵn yn dyfod'. Ydach chi'n gwybod beth yw esgid y frân [gweler tudalen 3]?

Ann Parry Owen (llun: <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-46972070>)

Dyma ymateb yr arbenigwraig morol Nia Wyn Jones:

"Wel, am ddifyr!! Beth am y syniad mai Maelgi ydi hwn? Mae tair rhywogaeth o faelgi yn Ewrop. Angelshark (*Squatina squatina*), Smooth Angelshark (*Squatina oculate*) a Sawback Angelshark (*Squatina aculeata*) – yn hanesyddol mi oedd *Squatina squatina* yn gyffredin yn nyfroedd Cymru – dydw i ddim yn siwr am a ddau arall – Ond mae nhw yn cael eu drysu hefo rhywogaethau fel *monkfish*. Maent hefyd yn ovoviviparous, felly wyau yn datblygu a'u dodwy tu fewn i'r fam ac wedyn i bob golwg yn rhoi geni i ifainc...? Abad = Abbot (Monk) ella?"

Dyda ni ddim yn brin o arbenigwyr; dyma Sion Roberts:

"Dyfalaf o'r disgrifiad a'r enw Abad (*Abbot* yn Saesneg), mae *Squatina squatina* yw'r pysgodyn dan sylw. Enwau Saesneg amdano: *Monkfish*, *Abbot fish* (yr enw yma yn: Forrest, H.E. 1907 "The Vertebrate fauna of North Wales" Witherby & co. Difyr de, a oedd Forrest wedi clywed yr enw Cymraeg?), Angel fish, Angel shark. Ac yn Gymraeg: Maelgi, Llydaweg: morfanac'h, morfanac'h (= 'mynach môr'), ael (= 'angel'). Yr enwau yma i gyd yn disgrifio siap y pysgodyn - yn debyg i het abad, neu cwfl mynach, neu angel....

Maelgi: mae'r enw Maelgi gan Fynes-Clinton a Forrest.

(*mail-ed-dog*, *war dog*?) mael + ci, yn ol Geiriadur Prifysgol Cymru ystyr mael yma yw dur neu haearn, arfwisg wedi ei wneud o ddolenau metal (*chain mail*).

Felly ci mewn arfwisg. Efallai mai ci rhyfel yw'r ystyr? Mae'r 'sgodyn yn edrych yn ddigon ffyrnig! Ond nid yw yn gwneud synnwyr? Nid oes ganddo arfwisg...

Mae Forrest yn cyfieithu'r enw fel 'soft dog' ac yn cymryd mae meddal yw ystyr mael... ia gallai weld pam, well gen i hon na'r uchod...

Ond rwan rwyf yn gweld y gair (m)ael sef angel + ci (*dog*, *shark*), *Angel Shark*...

Siobyn gwelw.... tywyll



Llanrhaedr (Dinbych) 31
Mai 2019 Gwyn Parry

Wel dyna
ddarganfyddiad!
Edrych yn hawdd iawn
i'w adnabod - ond...!
Dwi'n eitha siwr mai
ffurf ar y SIOBYN
GWELW *Calliteara
pudibunda* ydi o (ond
ffurf nad yw'r union
beth yn fy llyfrau i!).

Beth mae eraill yn ei
feddwl?

Ei hyd yw 3.3cms.

...ond aros mae'r mwnvddau mawr



Golygfa o Ysgol Cwm y Glo ar
ddiwrnod etholiad Ewrop yn
ddiweddar. Rhywbeth I gofio'r
ysgol (sydd ar fin cau....).

Seisniadau di-glem

Cychwynodd y sgwrs fach ganlynol yn sgil trafod hen ddogfen a soniodd am moelrhon, hen air am morlo.

Mae yna le yn Conemara o'r enw *Cloch na Ron* (carreg y morlo). Wnaeth yr OS Prydeinig yn ei "ddoethineb" ei Seisnigo i Roundstone. Diolch fyth na ddar'u y math yma o beth ddigwydd (hyd y gwyddom) yng Nghymru - sef cyfieithu'r elfen gyntaf a newid yr ail elfen i air tebyg ond cwbl diystyr! Tybed oes engreiffiau o'r math yng Nghymru? Beth am Lydaw?



Roundstone (Irish: Cloch na Rón, meaning "seal's rock") is a village on the west coast of Ireland, in the Connemara region of County Galway. The town of Clifden is nearby to the north. The anglicised name is usually considered an error on the part of the British colonial Ordnance Survey, which translated the village name; while Cloch certainly means "stone" or "rock", Rón means "seal", not "round". Still, the names Cloch na Rón and Roundstone may be totally independent.[2] The bay is referred to as Round-stone Haven as early as 1684 (Roderick O'Flaherty), and the rock after which it is named stands like a marker at the entrance and is strikingly round.

Llyn Brianne oedd yr enghraifft gan Dafydd Dafis, Cymdeithas Edward Llwyd. 'Nant y Bryniau' oedd yn llifo i mewn i'r llyn, a 'Llyn y Bryniau' oedd yr enw i fod. Ond, hyd ddiwedd bywyd Dafydd, roedd yr OS yn pallu newid yr enw! Mae llawer iawn o enghreifftiau yn Llydaweg, ond bydd rhaid i ni lunio rhestr!

Derec Stockley

Mewn ffordd rydych yn cadarnhau ei fod yn ffenomenon eithriadol yng Nghymru?

Rwy'n cofio Dafydd yn taeru taw Llyn a Nant y Bryniau ddylai "Brianne" fod, ond mae Iwan Wmffre yr un mor bendant taw 'breuannau,' sef wrth gwrs, melin law neu mortar malu, yw'r tarddiad

Rex Caprorum

Un arall yng Nghymru yw'r dafarn sy'n enwog am ei bwyd ym mhentref Creigiau, sef y Caesars Arms. Mae'r enw'n dod o enw nant gyfagos, Nant y Cesair, mae'n debyg.

Derec Stockley

Ydi Rosebush hefyd yn enghraifft: *rose* = rhos ++

Coch y bonddu cynta'r tymor



Gwerth eu cofnodi - 'dydy nhw ddim l gael ymhobman.

Nefyn SH 306 404
19 Mehefin 2019

Bethan Vaughan Davies
21 Mai 1988: coch y bonddu yn hedfan ger Pentre'r 7-aelwyd Aber [dyma'r cynharaf yn Y Tywyddiadur]

Esgid y fran



Ymhellaf i ysgrif ddiddorol gafwyd gan Ann Parry Owen ar dudalen 2 dyma gwestiwn difyr: "Ci coeg ... yr enw cyffredin ar yr holl gŵn bysgod sydd yn magu yn y môr, ac y maent yn bwrw oddi wrthynt ac ohonynt beth a elwir esgid y frân, o'r hon y mae yr holl gŵn yn dyfod".

"Ydach chi'n gwybod beth yw esgid y frân?" gofynnodd Ann. Tybed ai'r porsiau bach uchod i ddal wyau'r ci môr ydi rhain [lluniau o Wikipedia]? Pwrs y forforwyn (cyfieithiad o'r Saesneg *mermaid's purse*) yw hwn ar lafar cyffredin ond onid yw esgid yn fran yn llawer mwy gwreiddiol ymhob ffordd.

Oes rhywun wedi clywed am yr enw yma. Cofiwch ddweud ble a sut y daeth i'ch sylw.

Mwy am bwrs y forwyn ar dudalen olaf Bwletin 123 <https://llennatur.cymru/Content/Upload/Cylchgrawn123.pdf>

Dilyn yr og...



Pa mor gyffredin ydi'r olygfa hon i chi heddiw? Rhowch floedd neu tynnwch luniau, a dwedwch pryd a ble (golygfa wanwyn wrth gwrs).


Llun: gogledd Môn, D Richard Evans

Cofiwch : **CYMUNED LLÊN NATUR**
(grŵp Llên Natur) ar Facebook

Gwanwyn eleni - sut mae'n cymharu

GWANWYN 2019 O'I GYM HARU A GWANWYN MWYAF BLAENGAR (glas) A HWYR (coch) ERS 1995

Tsum Waunfawr (HHJ)




Dyma graff cymharol, terfynol, gwanwyn eleni - sef 1 Ion-31 Mai. Fe ddaeth gwanwyn eleni (melyn) yn agos at fod y gwanwyn mwyaf blaengar o'r gyfres o ran crynhoed y tymheredd. (Esboniwyd eisoes am y Tsum ac am sut cafodd ei glandro). Dilynwch y graffiau blaenorol (bwletinau Chwefror - Ebrill) i weld sut oedd y gwanwyn yn cymharu dros y cyfnodau byrach.

Diolch I Huw 'tywydd' Jones am baratoi'r data pob mis.

Beth am anfon eich sylwadau am effeithiau gwanwyn hwyr 2013 a gwanwyn cynnes 2007.

Na nid celf modern - Newid Hinsawdd yng Nghymru - mewn sribedi



1884

Tymheredd blynyddol Cymru o 1884-2018 gan ddefnyddio data o Swyddfa Dywydd y DU. Annual average temperatures for Wales from 1884-2018 using data from UK Met Office. <https://showyourstripes.info/>

2018

Cofiwch glicio ar ddolenni'r bwletin hwn!

Dail wyneb i waered



Fe arferai fy nhaid ddweud, os bydd dail y coed yn cael ei chwythu tu chwynab allan gan y gwynt, glaw fydd, a dwi wedi gweld hynny !
Derec Owen

Dyma isod yr ymateb helaeth gafwyd. Gresyn na chafodd lleoliadau y defnydd o'r dywediad eu cynnwys mewn amryw o achosion ond mae'r enghraifft o Frycheiniog yn awgrymu dosbarthiad Cymru gyfan. Tybed oes yna ddefnydd Saesneg - neu du hwnt - o'r gred os cred yn unig ydyw? Tybed all fod sail gwyddonol i'r sylw. Cynigion os gwelwch yn dda.

Margaret Roberts Mi fyddai fy mam yn dweud hefyd.

Minah Drew Dywediad cyfarwydd gen i hefyd.

Meiriona Williams Cyfarwydd iawn, D Conwy.

Eirianwen Blackford Cyfarwydd yma yn Ninbych hefyd. Mae'r dail yn troi tu chwith, siwr o law.

Dafydd Whiteside Thomas Cytuno. Llanrug

Rex Caprorum Dail yn troi wyneb i waered, arwydd siŵr bod glaw i ddilyn. Gorllewin Brycheiniog

Gwenda Williams Mi fyddaf I yn dweud hyn hefyd

Eleri Lewis A finna hefyd!!

Oswyn Williams Rioed di clywed y ddywediad, ond mi rhof ar gôf rwan.

Margaret Eifiona Hewitt Cyfarwydd ac yn ei ddefnyddio!
Dolgellau

Gwyneth Ffrancon Lewis Cofio nain yn dweud hyn wrthef
Brithdir, Dolgellau

Derrick Jones Cyfarwydd iawn i mi; dyna fydda fy rhieni'n ddweud, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef, mae yn rhyfeddol o agos i'w le fel argoel tywydd gwlyb.

Dot Bailey Ia wedi clywed yr un peth - a gaddo storm o felt a thranna .

Oes yna resymeg y tu ol hyn?

Gwalchwyfyn hofrol... llonydd



Gwalch wyfyn hofrol yn yr ardd (Clydach, Cwmtawe 02.06.2019) Fe laniodd yn y gwrych am gysgod pan ddaeth cawod o law.

Dewi Lewis

Os ydi GWALCHWYFYN HOFROL yn brin, mae'r olygfa yma ohono yn brinach. Anaml iawn y'i gwelir yn llonydd.

Ffenoleg eira ar fynydd Teide

Teide yw mynydd uchaf Sbaen (12,000 tr) ar Ynsoedd y Caneri. Mae o ar y cyhydedd, felly mae'n arbenig o werthfawr o ran Newid Hinsawdd i gofnodi pryd a faint o eira sydd arno. Mae'n gyrchfan gwyliau poblogaidd ac mae ein haelodau wedi cyfrannu eu lluniau i'r perwyl. Dyma'ch lluniau hyd yn hyn. Ewch ar ôl eich hen *snaps* gwyliau i lenwi'r bylchau....

Dilynwch y naratif o'r gwaelod i fyny

Eleni dros y Pasg (**21 Ebrill 2019**) adroddodd Malcolm Williams nad oedd unrhyw eira ar Teide.



Ann
Corkett a
Bruce
Griffiths

**27
Chwefror
2018**



Emlyn Tudor
Tachwedd 2017



A dyma beth oedd yn weddill o'r eira erbyn


4 Ebrill 2013

Trystan ap Ifan



Tybais mai esgynydd sgiog oedd hwn (saeth). Buasai hynny'n rhyfeddol yn y fath leoliad ond rhywbeth i berwyl tebyg I dren bach yr Wyddfa ydi o meddir.

4 Mawrth 2013 Yn dilyn storm enfawr ar y 4ydd o Fawrth 2013 roedd gorchudd trwchus o eira o thua 7000 troedfedd uwch y mor hyd y copa (12,198 tr.)
Ieuan Roberts



Mis Ionawr [2010?] fues i yno ac roedd eira ar y mynydd.

Rhys Jones

26 Jan 1884: *Fine day and strong increasing breeze, we passed a sailing ship today. At noon we were abreast of the Southern point of Teneriffe Is. Teneriffe summit was visible covered with snow. One of the passengers picked up from the deck a flying fish over a foot long*
Dyddiadur mordaith David Thomas, Llandwrog, ar yr SS Auracania (Tywyddiadur Llên Natur a Bwletin 23)

Haint ar bob llaw

Mae nifer o goed ynn o'n cwmpas ni yma yn Waunfawr yn rhannol ddi-ddail - carpiog yr olwg. Roedd gwynt mawr pythefnos neu fwy yn ôl pan oedd yr ynn yn dal ym mlagur eu dail (yr onnen wastad ar ei hol hi!). Mae'n debyg mai hwnnw effeithiodd yn ddrwg ar yr egin. Rhywun arall wedi sylwi ar hyn?

[Morwen Jones](#) Oes mewn amryw o lefydd, drain duon, ambell i goeden gastan a siacan a oedd yn dechrau deilio ar y pryd

[Richard Gwyn Neale](#) Mae'r rhan fwyaf o goed ynn o gwmpas ein cartref yn Rhyd, Meirionnydd, gyda brigau noeth. Aethom i Nant Gwynant echddoe, a fel yna roedd hi yno hefyd. Mae gen i ofn eu bod yn dioddef o'r haint *Hymenoscyphus / Chalara*. Dyma lun o'r creithiau nodweddiadol.



Mae llawer wedi rhoi y bai ar Storm Hana ar 28 Ebrill. Effeithiwyd ar nifer o goed eraill felly nid yw'n bosib mai *Chalara* yw'r stori i gyd. Cofiw'n bod sychder hydrolegol ar droed ers haf y llynedd. Effeithiwyd yn ddrwg iawn hefyd ar ffawydd (gwreiddiau bas iawn), coed castanwydd y meirch, drain duon a sycamor. Betha am drafod pob un o'r rhain yn eu tro.



[Dewi Lewis](#) Mae'r onnen yma ger Beddau'r Derwyddon (SN67401812) wastod yn cael trafferth i ddeilio. Llynedd doedd braidd dim dail arni oherwydd y cyfnod sych a gawsom. Eleni mae'r stori'n debyg. Braidd dim dail oherwydd y sychder a'r ffaith ei bod yn tyfu mewn ardal calchfaen a thywodfaen. Mae hi hefyd yn agored i wyntoedd sydd siwr o fod yn effeithio'r blagur. **Dewi Lewis**

Y gwynt sy'n cael y bai gan Dewi.



Rhai ni yn Niwbwrch wedi cael sgeg go arw, ond y goeden jacmor ar Ynys Llanddwyn nath ddwyn ein sylw fwyaf o'r difrod y gwynt. **Einir Wyn**

Yn fy mhrofiad i (DB) does byth golwg iach ar y sicamor mewn twyni tywod yn rhannol oherwydd natur tywodlyd y pridd ac yn rhannol oherwydd heli'r môr. A dydyn nhw byth yn fawr iawn. Ond gwynt yn ffactor hefyd

Ffawydd ydi rhain yn y llun Coeden â gwreiddiau bas iawn sy'n fwy tebygol o ddi-dail o sychder na choed â gwreiddiau dyfnion. Mae'r ffaith bod y dail wedi eu deifio ar ochr y gwynt hefyd, yn awgrymu bod rhyw storm (Hannah mae'n siwr?) YNGHYD a sychder ers misoedd sydd wrth wraidd y cyflwr. Diddorol bod yna ddigon o gnau hefyd.



Chwyddi drain duon *Taphrina* wedi anharddu'r cnwd eirin tagu, ond gallwn i ddim rhoi bai ar rheiny am y cyfan.

Efallai bod y sychder wedi gwanhau'r coed ac agor y drws i'r haint - y tro cyntaf ers 4 blynedd



Y ffawydd wedi i chael hi'n ddirifol yng Nglhnlifon ond effaith lleol oedd hyn gan nad oes llawer o ffawydd fel arall yn yr ardal.

Sylwadau eraill:

Mewn nifer o lefydd: coeden ffawydd fawr ger cartref Bontnewydd yn enghraifft amlwg. Maen debyg i'r hoel adawyd gan yr "beast from the east" ar goed sbel yn ol.

Aled E Jones

[Meinir Gwilym](#) Llauer iawn o'r coed o'n hamgylch ni yn Nhrefor hefyd. Hyd yn oed coed derw a drain duon. Ia, y storm annhymhorol yna!



Castanwydd y march wedi ei ddeifio ar ochr y gwynt (Glynllifon) - mae yna haint arbennig '(gwyfyn y camera) ond go brin mai hwn yw'r prif achos yma.


Un diwrnod oer o Chwefror - dau ben y byd



Cofnod tywydd diddorol - pibonwy ar ôl tân mewn llun dyfrlliw gan Turner!:

14 Chwefror 1792, Llundain: *The Pantheon Opera house in Oxford Street, London, burnt down on 14 February 1792, having been torched at the behest of its management committee who wanted to improve business at a rival theatre in which they also had a financial interest. Turner may have worked there as a scene painter in 1791-2. In the foreground firemen fill and empty their buckets, while crowds view the aftermath of the fire. Although the sun has been up for some hours, few of the icicles have melted.* Capsiwn i'r llun "The Pantheon, the morning after the fire" (1792) yn Shanes, E. (2000), Turner the Great Watercolours (RAA).

Golygfa brin hyd yma yng Nghymru



Campwaith gan Gwynant Pierce ar drip i Swydd Efrog: CAMBIGAU yn hambygio BODA'R GORS

Helpwch ni i rannu eich cofnodion gyda chronfeydd mawr y Canolfannau Cofnodi Lleol.

NODWCH LLE A PHRYD I BOB COFNOD NEU LUN

Dyma'r unig gofnod arall i'r diwrnod hwn yn y Tywyddiadur (ond cofiwch mai Quebec oer yw hwn - ond mae'r frawddeg olaf yn awgrymu amodau oerach nag arfer):

14 Chwefror 1792: *Quebec, Lower Canada: During the winter large masses of ice float down the river, and the people who come to market from the opposite shore pass in canoes, which they quit when they come to one of these large bodies of ice, and carry their canoes across the ice on their shoulders and launch them again in the water, and this is repeated several times before they reach Quebec, where they sell a fat turkey for 15d. and provisions, all kinds, in proportion. The mode of crossing the river appears so difficult and dangerous that it seems hardly credible till it has been seen. This evening it was announced that "le pont est pris" (the bridge has formed), that is, there is now a complete body of ice filling up the river, and canoes will be no longer used, as carriages will drive across, which is very useful to the peasants and very pleasant to those who drive for amusement, and this year the weather, having been calm and the wind with the tide when it froze, the ice is very smooth. It is seven years since a bridge was formed"* **Dyddiadur Mrs John Graves Simcoe: "The Diary of Mrs. John Graves Simcoe" Facsimile reprint Prospero Books, 2001**

Dwi'n synnu braidd gyda llaw bod yna farchnad twrcïod yng Nghanada yn yr 18ed ganrif.



Dyma ddsbarthiad modern y twrci gwylt. Roedd yr aderyn yn ymestyn ymhell i fewn i Ganada yng nghyfnod Simcoe.

Mwy am haint y coed ynn (tud. 5)



Truenus gweld fod y rhan fwyaf o goed ynn Nant Gwynant wedi ei heintio. Oblygiadau pellgyrhaeddol i ecoleg y coedydd arbennig hyn, sy'n rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Y Wyddfa.

Richard Gwyn Neale

Gan fod ynn yn dy lun yn Nant G (Gallytywenallt) yn cael eu ffafrio gan y dolereit calchog (os cofiaf yn iawn) mi fydd yn ddi-ddorol gweld pa goed fydd yn tyfu yn eu lle?




Adnabod cacynod Cymru'n well



Cwcwôd byd y cacynod. Mae ymddygiad y fenyw'n bur debyg i'r hyn mae'r gog yn wneud. Nid ydynt yn gallu cario pail.

- Nid oes ganddynt y math o fasedg i gario pail ar eu coes cefn
- Nid oes llawer o flew ar eu cefn


parasitiaid ("cwcwôd") cymdeithasol



wyneb hir



wyneb crwn



Nodyn pwysig: Nid yw'n bosibl digoni ar ychydig o nodweddion corfforol. Mae'n holl bwysig ystyried eu cynhefin a'u hymddygiad.